# Adolygiad Diogelu Unedig Unigol

## Goleuo'r Gorffennol i wneud y Dyfodol yn fwy diogel

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## BRIFFIAD 7 MUNUD

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, anfonwch e-bost at: SUSRWales@llyw.cymru

### CANLLAWIAU STATUDOL ADUU

- Gwahoddwyd dros 190 o rhanddeiliaid i gyflwyno sylwadau ar y canllawiau statudol drafft.
- Gwnaed diwygiadau i'r canllawiau statudol ADUU drafft yn seiliedig ar adborth gan gydweithwyr o Lywodraeth Cymru.
- Cynhelir sesiwn Bord Gron yr wythnos hon gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn gorffen y drafft yn barod ar gyfer cychwyn ymgynghoriad ffurfiol.
- Comisiynwyd cwmni Fradd Consultancy i hwyluso'r broses ymgynghori. Bydd y cwmni nawr yn dechrau gweithio ar hyn.
- Mae'r fersiwn Hawdd Ei Ddarllen a'r fersiwn ar gyfer Pobl Ifainc o'r canllawiau wedi'u cwblhau yn Gymraeg a Saesneg.

### CEFNDIR


Creu proses adolygu unigol lle mae angen ymagwedd amlasiantaeth, gan gynnwys y prosesau adolygu canlynol: Adolygiad Ymarfer Oedolion; Adolygiad Ymarfer Plant; Adolygiad Dynladdiad Domestig; Adolygiad Dynladdiad Iechyd Meddwl; Adolygiad Dynladdiad Arfau Bygythiol. Defnyddir yr adroddiad terfynol i hysbysu arfer proffesiynol drwy Ystorfa Ddiogelu Cymru.

### CYNNYDD HYD YN HYN

- Mae Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi datblygu cynllun gwaith er mwyn cyflawni'r Cynllun Dysgu a Datblygu. Bydd y gwaith hwn yn cychwyn yn unol â chwblhad y drafft terfynol o'r canllawiau statudol.
- Mae'r dudalen we ADUU yn cael ei phoblogi. Bydd yn barod erbyn dechrau'r cyfnod ymgynghori ffurfiol.
- Mae'r Grŵp Cyflenwi ADUU a'r Ganolfan Gydlynu'n parhau â'u gwaith datblygu yn barod ar gyfer gweithredu'r broses ADUU.

### DIWEDDARIAD YNGHYLCH YSTORFA DDIOGELU CYMRU

- Bydd ymarferwyr yn cychwyn profi YDdC yn gynnar fis Mawrth.
- Os hoffech wirfoddoli i gymryd rhan yn y profi, cysylltwch â'r tîm ADUU.




### Y CAMAU NESAF

- Profi YDdC
- Ymgynghoriad ffurfiol ar y Canllawiau Statudol ADUU
- Bu ffocws ar baratoi ar gyfer yr ymgynghoriad. Bydd hyn yn symud yn awr i ffrydiau gwaith eraill mewn paratoad ar gyfer gweithredu'r broses ADUU.

### Y GRŴP CYFEIRIO RHANDDEILIAID

- Roedd nifer yn bresennol yng nghyfarfod cyntaf y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid. Trafododd y grŵp gynlluniau gwaith posibl ar gyfer y dyfodol.
- Cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer y grŵp.
- Mae dal cyfle i ymuno â'r grŵp hwn os hoffech barhau i gyfrannu at ddatblygiad y broses ADUU. Gwahoddwch gydweithwyr a allai fod â'r sgiliau i gynorthwyo â gwaith y grŵp hwn os gwelwch chi'n dda.
- E-bostiwch y tîm ADUU os oes gennych unrhyw gwestiynau.

### DIWEDDARIAD YNGHYLCH Y GANOLFAN GYDLYNU ADUU

- Bydd cynllun gwaith yn cael ei gynllunio ar gyfer datblygu'r Rhestr Cadeiryddion ac Adolygwyr Cymeradwy
- Bydd recriwtio a sefydliad Swyddog Cymorth Busnes yn cychwyn. Bydd y swydd hon yn eistedd o fewn y Ganolfan Gydlynu.

**This document is also available in English**